



swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

'i fyfyrwyr mewn addysg uwch'

Cyflwyniad i'r OIA

ar gyfer Personau Cyswllt Prifysgolion



www.oiahe.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Prifysgolion a'r OIA	6
Beth yw Person Cyswllt a beth mae'r gwaith yn ei olygu?	6
Erbyn pryd y mae angen i mi ymateb i'r OIA?	6
A yw'r holl ddogfennau'n cael eu hanfon at y myfyriwr?	7
A oes rhaid i'r brifysgol ddarparu gwybodaeth i'r OIA?	7
A yw'r OIA yn cynnal gwrandawiadau llafar?	8
A all y brifysgol geisio datrys cwyn wedi iddi ddod at yr OIA?	8
Y broses gwyno	9
Pwy sy'n cael cyflwyno cwyn i'r OIA ynglŷn â phrifysgol?	9
A all rhywun gwyno wrth yr OIA ar ran myfyriwr?	9
Pa fath o gŵynion y gall yr OIA eu trin?	10
A oes unrhyw gŵynion na all yr OIA eu trin?	11
Beth os yw myfyriwr yn mynd at yr OIA gyda chŵyn ynglŷn â gwahaniaethu?	11
Beth mae'n rhaid i fyfyriwr ei wneud cyn y caiff gwyno wrth yr OIA ynglŷn â phrifysgol?	12
Beth sy'n digwydd pan fydd yr OIA yn derbyn cwyn?	13
Sut mae'r OIA yn adolygu cwynion?	14
Faint o amser y mae'n ei gymryd i ystyried cwyn?	14
Canlyniad cwyn	15
Cwynion ynglŷn â gwasanaeth	16
Cyfathrebu â'r OIA	17
Sut gallaf ddysgu rhagor am yr OIA ac am ymdrin â chŵynion?	18



Cyflwyniad

Mae Swyddfa Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch (OIA) yn darparu Cynllun annibynnol, tryloyw i adolygu cwynion myfyrwyr yn erbyn sefydliadau unigol.

Dynodwyd yr OIA yn weithredwr y Cynllun cwynion myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr o dan adran 13 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ag effaith o 1 Ionawr 2005. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Sefydliad Addysg Uwch gymryd rhan yn y Cynllun. Er rhwyddineb cyfeirio, defnyddiwn y gair 'prifysgol' trwy'r daflen hon i gynnwys pob sefydliad sy'n cymryd rhan. Ceir rhestr o'r holl brifysgolion sy'n cymryd rhan ynghyd â gwybodaeth bellach am y Cynllun ar ein gwefan yn **www.oiahe.org.uk**.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch ein proses adolygu i brifysgolion a'u Personau Cyswllt. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Rheolau sydd ar gael ar ein gwefan (**<http://www.oiahe.org.uk/decisions/leaflets.aspx>**). Os bydd gwrthdaro rhwng y daflen hon a'r Rheolau, y Rheolau fydd drechaf.

Gallwn ddarparu ein llynyddiaeth mewn gwahanol ddiwyg. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hynny neu ynglŷn â'n proses gŵynion ar **enquiries@oiahe.org.uk** neu ar **0118 959 9813**.

Prifysgolion a'r OIA

Beth yw Person Cyswllt a beth mae'r gwaith yn ei olygu?

Gofynnwn i bob prifysgol enwebu Person Cyswllt i gysylltu â ni'n uniongyrchol ac ymateb i'n hymholiadau ynglŷn â chŵynion unigol. Os byddwch yn dymuno dirprwyo cwyn i aelod arall o'r staff, a'ch bod yn dymuno i ni drafod â'r person hwnnw, ysgrifennwch i ddweud wrthym, os gwelwch yn dda. Os caiff cwyn ei gwneud yn eich erbyn chi, efallai y byddai'n briodol penodi Person Cyswllt arall.

Disgwyliwn allu cysylltu â'r brifysgol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn er mwyn ymdrin â chŵyn myfyriwr. Dylid gwneud trefniadau eraill os nad ydych ar gael, er enghraifft os ydych ar wyliau neu ar absenoldeb salwch hirdymor.

Pan fyddwn yn cyfathrebu â chi, byddwn bob amser yn eich annerch yn ffurfiol, hyd yn oed mewn negeseuon e-bost. Nid ydym yn dymuno ymddangos yn anghyfeillgar, ond gan fod pob gohebiaeth yn cael ei rhannu â'r myfyriwr, mae'n bwysig inni fod yn annibynnol a diduedd.

Erbyn pryd y mae angen i mi ymateb i'r OIA?

Bydd ein ceisiadau am wybodaeth yn gofyn i chi ymateb erbyn dyddiad penodol. Gwneir hyn er mwyn helpu i reoli disgwyliadau'r brifysgol a'r myfyriwr ynghylch llinell amser a hynt y gŵyn. Os oes angen rhagor o amser arnoch i ymateb, cysylltwch os gwelwch yn dda â thrafodwr yr achos cyn gynted ag y bo modd gan egluro pam y mae angen estyniad.

Byddwn yn ceisio cytuno pan fo gan barti reswm da dros ofyn am estyniad. Er hynny, rhaid i'n proses fod yn deg â'r ddwy ochr ac, os bydd prifysgol yn peidio â chydymffurfio â therfyn amser rhesymol, efallai y byddwn yn bwrw ymlaen ar sail yr wybodaeth sydd gennym.

A yw'r holl ddogfennau'n cael eu hanfon at y myfyriwr?

Mae'r broses yn un dryloyw ac felly byddwn yn cyfnewid yr holl wybodaeth a gyflwynir i ni â'r naill ochr a'r llall. Sicrhewch os gwelwch yn dda bod enwau neu fanylion personol unrhyw fyfyrwyr eraill yn cael eu cuddio, fel na ellir eu darllen – er enghraifft yng nghofnodion Bwrdd Apêl. Byddwn fel rheol yn anwybyddu gwybodaeth a gyflwynir inni'n gyfrinachol, neu'n ei hanfon yn ôl. Er hynny, mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, efallai y caniatawn i wybodaeth gael ei chyflwyno ar y sail nad yw i gael ei datgelu i'r myfyriwr, e.e. pan fo'r wybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad troseddol.

A oes rhaid i'r brifysgol ddarparu gwybodaeth i'r OIA?

Ar ôl inni dderbyn cwyn a phenderfynu ei bod yn gymwys byddwn yn ysgrifennu atoch yn gofyn am yr holl wybodaeth berthnasol a ystyriwyd gan y brifysgol wrth wneud ei phenderfyniad. Gofynnir i'r brifysgol hefyd ddarparu sylwadau pellach os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae dyletswydd statudol ar brifysgolion i ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwn amdani, ac mae peidio ag ymateb i gais rhesymol yn torri ein Rheolau. Efallai y down i gasgliadau anffafriol os darganfyddwn fod

gwybodaeth wedi ei chadw'n ôl. Efallai y gofynnwn ichi ardystio bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn gyflawn.

Mater i'r brifysgol yw datgan ei safbwynt yn glir a rhoi sylwadau ar y gŵyn/cwynion a wnaed gan y myfyriwr fel y'i/y'u nodir ar Ffurflen Gwyno'r OIA. Dylech ddweud wrthym cyn gynted ag y bo modd os nad yw mater wedi cael ei ystyried ym mhrosesau mewnol y brifysgol.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gofynnwn ichi ddarparu gwybodaeth yn electronig neu mewn ffont mwy nag y byddech yn ei ddefnyddio fel rheol.

A yw'r OIA yn cynnal gwrandawriadau llafar?

Mae ein Rheolau'n darparu bod gwrandawriad llafar yn ddewis; yn ymarferol, fodd bynnag, cawn nad yw hynny'n angenrheidiol fel rheol. Os bydd trafodwr yr achos yn credu y gallai fod angen gwrandawriad neu os bydd myfyriwr yn gofyn am wrandawriad, cyfeirir y gŵyn at y Dirprwy Ddyfarnwr i'w hystyried.

A all y brifysgol geisio datrys cwyn wedi iddi ddod at yr OIA?

Croesawn gynigion i ddatrys cwyn ym mhob cam o broses yr OIA cyn i Ganlyniad Cwyn gael ei gyhoeddi, er y byddem yn gofyn ichi roi gwybod inni gan y gallem benderfynu atal ein hadolygiad dros dro tra bo'r cais i ddatrys yn cael ei wneud.

Y broses gwyno

Pwy sy'n cael cyflwyno cwyn i'r OIA ynglŷn â phrifysgol?

Caiff myfyriwr cofrestredig mewn prifysgol neu gyn-fyfyriwr cofrestredig ynddi gyflwyno cwyn am y brifysgol honno i'r OIA. Ceir rhestr lawn o'r prifysgolion y gallwn dderbyn cwynion amdanynt yn **<http://www.oiahe.org.uk/about-us/list-of-hei.aspx>**.

Gallwn hefyd adolygu cwynion am gwrs mewn sefydliad arall, er enghraifft coleg addysg bellach, ar yr amod bod y cwrs yn arwain at ddyfarniad gan brifysgol. Rhaid i'r gŵyn, fodd bynnag, fod ynglŷn â rhywbeth y mae'r brifysgol, ac nid y coleg, wedi'i wneud o'i le.

A all rhywun gwyno wrth yr OIA ar ran myfyriwr?

Er ei bod yn well i fyfyrwyr ymdrin â'u cwynion eu hunain, caiff myfyrwyr benodi cynrychiolydd, e.e. ffrind, aelod o'r teulu neu gynghorwr o undeb y myfyrwyr, ar yr amod ein bod yn cael awdurdod ysgrifenedig ar Ffurflen Gwyno'r OIA. Dim ond â'r cynrychiolydd y byddwn yn gohebu wedi i hwnnw neu honno gael ei benodi/phenodi.

Pa fath o gŵynion y gall yr OIA eu trin?

Byddwn yn adolygu cwynion ynglŷn â gweithredoedd a hepgoriadau prifysgolion.

Corff adolygu yw'r OIA ac ni fydd fel rheol yn ymchwilio o'r newydd i faterion. Byddwn fel rheol yn cynnal adolygiad i weld a yw'r brifysgol wedi dilyn ei gweithdrefnau a chymhwyso ei rheoliadau, ac a oedd ei phenderfyniad terfynol yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Rydym yn gwbl ddiuedd ac annibynnol ar y myfyriwr a'r brifysgol, ac rydym yn seilio ein penderfyniad ar y dystiolaeth a ddarperir.

Mae'r cwynion y gallwn edrych arnynt yn cynnwys cwynion ynghylch y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:

- Addysgu a chyfleusterau
- Llety
- Goruchwylio ymchwil
- Lles
- Gwahaniaethu (nid ydym yn dyfarnu ar wahaniaethu yn yr un ffordd ag y byddai llys barn)
- Bwlian ac aflonyddu
- Lleoliadau
- Afreoleidd-dra gweithdrefnol
- Arferion annheg
- Materion disgyblu, gan gynnwys llên-ladrad
- Materion yn ymwneud â bod yn addas i ymarfer

A oes unrhyw gŵynion na all yr OIA eu trin?

Ni allwn edrych ar gŵynion ynglŷn â:

- Derbyniadau
- Barn academiaidd
- Cyflogaeth myfyrwyr
- Materion sydd neu a fu'n destun achos llys neu dribiwnlys, onid yw'r achos hwnnw wedi ei atal neu ei ohirio.

Beth os yw myfyriwr yn mynd at yr OIA gyda chŵyn ynglŷn â gwahaniaethu?

O dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, caniateir i fyfyrwyr a ddaw â chŵyn at yr OIA ynglŷn â gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd, amser i gychwyn achos llys yn ychwanegol at y terfynau amser arferol a osodir gan y llysoedd. Bydd terfynau amser a osodir gan y llys yn dechrau rhedeg o ddyddiad y digwyddiad gwreiddiol.

Wrth ystyried materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu nid yw'r OIA yn gweithredu fel llys. Nid yw'n ymchwilio nac yn dod i gasgliadau cyfreithiol yn yr un modd â llys. Er hynny, mae'n briodol i'r OIA gyfeirio at y gyfraith a chanllawiau ar wahaniaethu er mwyn ffurfio barn ynghylch arfer dda a phenderfynu a yw'r brifysgol wedi ymddwyn yn deg. Felly, er enghraifft, efallai y byddem yn edrych i weld a yw prifysgol wedi ystyried yn ddigonol a yw ei gweithdrefnau yn rhoi myfyriwr anabl o dan anfantais sylweddol ac, os nad yw, efallai y byddem yn argymhell ei bod yn gwneud hynny. Ni fyddem, fodd bynnag, yn dod i gasgliad bod y brifysgol wedi gwahaniaethu yn erbyn y myfyriwr.

Beth mae'n rhaid i fyfyrwr ei wneud cyn y caiff gwyno wrth yr OIA ynglŷn â phrifysgol?

Cyn y bydd myfyrwr yn cwyno wrth yr OIA, rhaid iddo/iddi yn gyntaf gwblhau gweithdrefnau cwyno neu apelio mewnol y brifysgol. Wedi iddo/iddi wneud hynny, dylai'r brifysgol anfon "Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau" at y myfyrwr. Dylai'r llythyr hwn nodi'n glir y materion a ystyriwyd, penderfyniad terfynol y brifysgol, a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn i'r OIA. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a beth y dylent ei gynnwys ar ein gwefan **www.oiahe.org.uk/uni/cop.aspx**.

Mewn amgylchiadau **eithriadol**, efallai y gwnawn edrych ar gŵyn pan nad yw'r gweithdrefnau cwynion neu apelïadau mewnol wedi'u cwblhau.

Os yw myfyrwr yn dymuno cwyno wrth yr OIA rhaid iddo/iddi anfon y canlynol atom:

- Ffurflen Gwyno'r OIA wedi'i llenwi a'i llofnodi (maent ar gael yn **www.oiahe.org.uk**)
- Copi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau
- Unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth ategol

o fewn y terfyn amser o dri mis a nodir yn y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Beth sy'n digwydd pan fydd yr OIA yn derbyn cwyn?

Byddwn fel rheol yn anfon copi o Ffurflen Gwyno'r OIA ac unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gan y myfyriwr at y Person Cyswllt. Bydd hyn yn cynnwys copi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau a anfonwyd gan y Brifysgol. Efallai y gofynnwn i'r brifysgol gynnig sylwadau ar y gŵyn neu anfon gwybodaeth bellach atom. Bydd yr holl wybodaeth y bydd y brifysgol yn ei hanfon atom yn cael ei hanfon at y myfyriwr.

Ein cam cyntaf yw penderfynu a yw'r gŵyn yn dod o fewn Rheolau'r Cynllun. Os na allwn benderfynu o'r papurau bod y gŵyn yn gymwys i'w hadolygu, byddwn yn cysylltu â chi er mwyn cael goleuni ar y sefyllfa. Rydym yn debygol o ofyn am gopi o'r apêl neu o'r ffurflen gwyno ynghyd â phapurau ategol a ystyriwyd gan y brifysgol cyn anfon y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Bydd yr OIA yn penderfynu a yw cwyn yn gymwys ai peidio.

Os ceir nad yw'r gŵyn yn gymwys byddwn yn ysgrifennu atoch chi a'r myfyriwr i ddweud pam. Mae gan y myfyriwr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn at aelod o'r Tîm Cymeradwyo.

Os derbyniwn y gŵyn yn dilyn y sgrinio cychwynnol hwn, efallai y bydd trafodwr yr achos yn:

- Ceisio datrys y gŵyn neu gyfryngu
- Gofyn i'r brifysgol am ei sylwadau ar y gŵyn
- Gofyn i'r brifysgol neu i'r myfyriwr am ragor o wybodaeth
- Cyhoeddi Canlyniad Cwyn mewn perthynas â'r gŵyn
- Anfon gwybodaeth at y myfyriwr iddo/iddi roi sylwadau arni
- Cysylltu â'r myfyriwr i drafod y gŵyn ac a oes modd cael y canlyniad a ddymuna.

Rydym yn gweithredu Cynllun tryloyw a bydd copi o'r holl wybodaeth a dderbynnir gan y brifysgol yn cael ei anfon at y myfyriwr. Fel rheol, byddwn yn anwybyddu unrhyw ddeunydd cyfrinachol a anfonir atom.

Sut mae'r OIA yn adolygu cwynion?

Bydd trafodwyr achosion yr OIA yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth nes byddant yn hyderus bod yr holl ddeunydd ganddynt i wneud penderfyniad ynghylch y gŵyn unigol. Wedi hynny, byddant yn cyhoeddi Canlyniad y Gŵyn, neu'r penderfyniad. Yr OIA sy'n cael penderfynu sut y bydd yr adolygiad yn mynd rhagddo a pha wybodaeth sydd ei hangen arno. Yn ystod pob cam, bydd trafodwyr achosion yn ystyried a ellid setlo'r gŵyn.

Faint o amser y mae'n ei gymryd i ystyried cwyn?

Mae pob cwyn yn unigol. Er hynny, yn aml nid yw'n bosibl darparu ateb sydyn i ddatrys cwyn, a gall gymryd chwe mis neu ragor i ddod â chŵynion cymwys i ben ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud bod cwyn yn gymwys.

Canlyniad cwyn

Gallwn ddyfarnu bod Cyfiawnhad i gŵyn, Cyfiawnhad Rhannol neu Ddim Cyfiawnhad. Byddwn yn ystyried a wnaeth y brifysgol ddilyn ei gweithdrefnau ei hun yn gywir ac a oedd unrhyw benderfyniad a wnaed gan y brifysgol yn rhesymol. Y prawf a ddefnyddiwn yw a ellir dweud bod y penderfyniad a wnaed neu'r weithred a ddilynwyd yn "rhesymol yn yr holl amgylchiadau".

Os cawn nad oes Cyfiawnhad i gŵyn, efallai y gwnawn awgrymiadau ynghylch arferion da a/neu sylwadau i'r brifysgol eu hystyried.

Os ceir bod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i gŵyn, efallai y gwnawn Argymhellion. Er enghraifft, efallai y gofynnwn i'r brifysgol adolygu neu newid ei gweithdrefnau neu ei rheoliadau; adolygu neu newid y ffordd y bydd yn trafod apeliadau a/neu gŵynion; gwneud dyfarniad ariannol, neu ailystyried yr apêl/y gŵyn. Fel rheol, byddwn yn ceisio rhoi'r myfyriwr yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynnddi pe na bai'r weithred neu'r diffyg gweithred gan y brifysgol wedi digwydd. Efallai, fodd bynnag, na fydd hynny bob amser yn bosibl neu'n briodol ac, mewn achosion o'r fath, efallai y dyfarnwn iawndal, neu rwymedi arall.

Disgwylir i brifysgolion gydymffurfio â'n Hargymhellion a hynny o fewn yr amserlen a nodir yn ein penderfyniad. Yn ein profiad ni, mae cydymffurfriad prifysgolion â'n Hargymhellion yn rhagorol. Mae unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn cael ei ystyried yn fater difrifol ac adroddir wrth y Bwrdd amdano a rhoddir cyhoedduswydd iddo yn Adroddiad Blynyddol yr OIA.

Cwynion ynglŷn â gwasanaeth

Beth bynnag fydd canlyniad y gŵyn, gobeithiwn y byddwch yn fodlon â lefel y gwasanaeth a rown. Fodd bynnag, os nad ydych yn hapus ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn trafod cwyn, gobeithiwn y byddwch yn dweud wrth drafodwr yr achos yn y lle cyntaf. Os nad ydych yn fodlon â'r esboniad a gewch, caiff eich cwyn ei hystyried gan y Dirprwy Ddyfarnwr. Os yw'r Dirprwy Ddyfarnwr o'r farn bod eich gohebiaeth yn codi materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth, bydd yn ei chyfeirio at Ysgrifennydd y Cwmni a fydd yn ymateb i chi; dim ond materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth y gall ef eu hystyried. Fel rheol, ni fydd Ysgrifennydd y Cwmni'n ystyried cwynion ynglŷn â gwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno dros ddau fis ar ôl inni ddweud wrthych mai Canlyniad y Gŵyn yw ein Penderfyniad Ffurfiol neu fod y ffeil wedi cau am reswm arall.

Os bydd Ysgrifennydd y Cwmni'n penderfynu eich bod wedi codi materion difrifol yn ymwneud ag ansawdd ein gwasanaeth, bydd yn cyfeirio eich cwyn at Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Nid yw Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ymwneud o gwbl â'n hadolygiadau na'n penderfyniadau, a dim ond materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth y bydd yn eu hystyried. Am ragor o wybodaeth gweler ein gwefan <http://www.oiahe.org.uk/about-us/complaints-about-the-oia.aspx>.

Cyfathrebu â'r OIA

Rydym yn coladu setiau electronig o reoliadau a gweithdrefnau o bob prifysgol. Os ydych yn ansicr a yw eich prifysgol chi wedi anfon yr wybodaeth hon atom, neu os oes gennych ragor o wybodaeth i'w hanfon atom, e-bostiwch **regulations@oiahe.org.uk**. Rydym yn hapus i chi ddarparu cyswllt gwe yn hytrach nag anfon copiau papur.

Ar ddiwedd pob blwyddyn byddwn yn anfon ffurflen ddiweddarau Personau Cyswllt allan. Mae hon yn gofyn ichi ddiweddarau eich manylion cysylltu chi ac aelodau eraill o'r staff, gan gynnwys staff a allai fod â diddordeb hefyd mewn derbyn gwahoddiadau i'n gweithdai. Rhowch wybod os gwelwch yn dda am unrhyw newidiadau wrth iddynt ddigwydd yn ystod y flwyddyn drwy anfon neges e-bost i **HEIcontacts@oiahe.org.uk**.

Ar ddiwedd pob blwyddyn byddwn hefyd yn anfon anfoneb am y cyfraddau tanysgrifio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r rhain yn daladwy drwy BACS neu siec ac anfonir manylion at eich cyswllt tanysgrifiadau enwebedig. Seilir y band tanysgrifio ar y nifer o fyfyrwyr sydd yn y brifysgol. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch os gwelwch yn dda â **finance@oiahe.org.uk**.

Ar ddechrau pob blwyddyn byddwn yn ysgrifennu atoch yn gofyn ichi ddweud wrthym faint o Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a anfonwyd allan gan eich prifysgol yn y flwyddyn galendr flaenorol.

Sut gallaf ddysgu rhagor am yr OIA ac am ymdrin â chwynion?

Ar ein gwefan mae amrywiaeth o adrannau gan gynnwys penderfyniadau diweddar gan yr OIA, olrheiniwr ar lein i fonitro statws cwyn, bwrdd trafod, copiâu o'n cylchlythyr electronig chwarterol a ffordd o lofnodi i ddweud eich bod yn dymuno derbyn y rhain fel mater o drefn. Ceir hefyd olrheiniwr ar lein lle gall prifysgolion weld statws cwynion.

Cynhaliwn raglen o Seminarau Polisi gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn gyfleoedd defnyddiol i'r OIA ledaenu arferion da a thrafod materion cyfredol yn y sector AU. Mae cynrychiolwyr hefyd yn cael eu bod yn gyfleoedd rhwydweithio defnyddiol. Mae'r sesiynau hyn yn boblogaidd iawn ac yn llenwi'n gyflym, felly os hoffech ddod fe'ch cynghorir i ddychwelyd eich ffurflen archebu'n fuan. Mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan <http://www.oiahe.org.uk/uni/seminar.aspx> ac fe'i hanfonir at ein cyswllt gweithdai ym mhob prifysgol.

Rydym hefyd yn cynnal rhaglen o ymweliadau â phrifysgolion. Yn ystod yr ymweliadau hyn ceisiwn siarad ag undeb y myfyrwyr yn gyntaf ac yna ag aelodau o'r brifysgol. Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi i drefnu ymweliad, ond mae croeso i chi ein gwahodd eich hun.

Gallwn hefyd gynnig sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra am gost ychwanegol. Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion gan ddefnyddio'r manylion a geir ar y dudalen nesaf.



swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

'i fyfyrwyr mewn addysg uwch'

Second Floor
Abbey Gate
57-75 Kings Road
Reading RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813

E-bost: enquiries@oiahe.org.uk

www.oiahe.org.uk

Twitter: <http://twitter.com/oiahe>